

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO	PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE
DYDD MAWRTH, 12 MAWRTH 2019 am 2.00 o'r gloch yp	TUESDAY, 12 MARCH, 2019 at 2.00 pm
YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI	COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI
Swyddog Pwyllgor	Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516 Committee Officer

AELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors:-

Y Grwp Annibynnol / The Independent Group

Gwilym O. Jones (**Cadeirydd/Chair**), Dafydd Roberts

Plaid Cymru / The Party of Wales

T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Nicola Roberts

Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents

Kenneth P Hughes, R.Ll.Jones (**Is-Gadeirydd/Vice-Chair**)

Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party

Glyn Haynes

Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)

Ms. Anest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Mr. Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)

Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)

Mr. Dafydd Gruffydd (Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

R H A G L E N

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 COFNODION (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 5 Chwefror, 2019.

4 DATBLYGIADAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL YN Y GYMUNED AR GYFER OEDOLION (Tudalennau 7 - 14)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Oedolion mewn perthynas â'r uchod.

5 ADRODDIAD CYNNYDD AR GYFLAWNI'R CYNLLUN LLEISANT GAN Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD A YNYS MÔN.

(Tudalennau 15 - 22)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Ynys Môn.

6 RHAGLEN WAITH (Tudalennau 23 - 36)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini ar Raglen Waith y Pwyllgor hyd at Gorffennaf 2019.

PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2019

YN BRESENNOL:	Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd) Cynghorydd Robert Llewelyn Jones (Is-gadeirydd) Cynghorwyr K P Hughes, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Margaret M Roberts, Nicola Roberts Cynghorydd Llinos M Huws (Arweinydd y Cyngor a Deilydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol)
WRTH LAW:	Prif Weithredwr, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwelliannau Gwasanaeth), Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Swyddog Sgriwtini (GR), Swyddog Pwyllgor (MEH).
YMDDIHEURIADAU:	Cynghorwyr Glyn Haynes, Trefor Lloyd Hughes MBE. Mrs Anest G Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru) , Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig Rufeinig)
HEFYD YN BRESENNOL:	Mrs Bethan Jones Edwards – Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol – Cefnogaeth Rheoli Busnes (mewn perthynas ag Eitem 4)

1 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodwyd uchod

2 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Dim

3 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr, 2018 fel cofnod cywir.

Materion yn Codi

Adroddiad Blynyddol GwE 2017/16

Cyfeiriwyd at y ffaith bod GwE wedi gwahodd Aelodau o'r Panel Sgriwtini – Adolygu Cynnydd Ysgolion i gysgodi gwaith GwE mewn ysgolion yn ystod ymweliadau penodol. Holwyd a oedd trefniant wedi'i wneud er mwyn cynnal ymweliad o'r fath.

Ymatebodd y Swyddog Sgrwtini fod yr Adran Addysg mewn trafodaethau ar hyn o bryd i gadarnhau'r trefniadau ar gyfer Aelodau i gysgodi gwaith GwE mewn ysgolion ac y bydd diweddariad yn cael ei roi i'r Panel Sgrwtini – Adolygu Cynnydd Ysgolion ar 15 Chwefror, 2019.

4 BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd Arweinydd y Cyngor a'r Deilydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol bod gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn darparu canllawiau strategol i'r holl bartneriaid sydd yn cefnogi unigolion i gynnal eu hiechyd a'u llesiant o fewn cymunedau sy'n gwbl gyson â nod y Cyngor i gefnogi oedolion bregus a'u teuluoedd er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac yn annibynnol.

Nododd fod Rhan 9 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i bob rhanbarth yng Nghymru sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i oruchwylio Partneriaethau ac Integreiddiad Gwasanaethau. Sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn 2016. Mae'r Ddeddf yn nodi bod angen i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol reoli a datblygu gwasanaethau i sicrhau cynllunio strategol a gwaith partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ac i sicrhau fod gwasanaethau gofal a chymorth effeithiol mewn lle i ddiwallu anghenion eu poblogaeth leol yn y ffordd orau. Mae aelodaeth y bwrdd hefyd wedi'i phennu gan ddeddfwriaeth ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd a'r Awdurdodau Lleol yn ogystal â chynrychiolwyr y trydydd sector a'r sector annibynnol. Mae'r Bwrdd wedi cyfethol aelodau o Wasanaeth Ambiwlans Cymru, y Gwasanaeth Tân, yr Heddlu a Thai ar y Bwrdd. Rhaid i'r Bwrdd hefyd gael cynrychiolydd ar gyfer Gofalwyr a Defnyddwyr Gwasanaeth. Dywedwyd bod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi'i gefnogi gan y Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol a'r Tîm Cydweithio Rhanbarthol sy'n cael ei letya gan Nghyngor Sir Ddinbych.

Rhoddodd yr Arweinydd fewnwelediad i'r llwyddiannau hyd yma fel y nodwyd yn yr adroddiad, sef:-

- Strategaeth Anabledd Dysgu
- Strategaeth Gofalwyr
- Gwaith Integreiddio (Cyllidebau Cyfun a Gwaith y Gronfa Gofal Integredig)
- Atebolwydd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'u llwyddiannau hyd yma
- Ymateb Gogledd Cymru i 'Gymru Iachach'
- Dylanwad y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn lleol.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion bod yr arweiniad statudol mewn perthynas â gweithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 angen i awdurdodau lleol wneud trefniadau er mwyn hyrwyddo cydweithrediad â'r partneriaid perthnasol ac eraill, mewn perthynas ag oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth, gofalwyr a phlant. Mae Rhan 9 o'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol er mwyn cyflawni eu swyddogaethau. O dan y Ddeddf, mae angen i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol sefydlu Byrddau Partneriaeth

Rhanbarthol er mwyn rheoli a datblygu gwasanaethau i sicrhau cynllunio strategol a gwaith partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ac er mwyn sicrhau bod gwasanaethau, gofal a chymorth effeithiol yn ei le er mwyn gallu bodloni anghenion eu poblogaethau perthnasol. Adroddodd bod gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cryfhau dros amser ac mae bod yn rhan o'r Bwrdd yn galluogi'r holl awdurdodau lleol i gael mynediad i gyllid grant sydd ar gae; gan Lywodraeth Cymru er mwyn gallu gwella darpariaethau.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a codwyd y pwyntiau canlynol:-

- Codwyd cwestiynau o ran a oes yna gydweithio rhwng y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r prif wahaniaethau rhwng y Byrddau. Ymatebodd y Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol – Cefnogaeth Rheoli Busnes, bod Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn yn aelod o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a bod pynciau sy'n berthnasol i'r ddau fwrdd yn cael eu rhannu. Nododd ei bod yn hanfodol nad yw'r gwaith a wneir gan y ddau Fwrdd yn gorgyffwrdd gan fod Llywodraeth Cymru yn anffodus wedi gosod disgwyliadau ar y ddau Fwrdd mewn perthynas â Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol. Rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw ffurfioli fframweithiau a strategaethau rhanbarthol;
- Cyfeiriwyd at y ffaith i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gynhyrchu Asesiad Anghenion Poblogaeth yn 2017 a oedd yn asesu anghenion gofal a chymorth y boblogaeth yng Ngogledd Cymru. Mae ystadegau yn dangos bod materion lechyd Meddwl ar gynydd a bod nifer uwch o bobl yn cyflawni hunanladdiad; cododd cwestiynau o ran a yw'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gallu mynd i'r afael â'r mater hwn. Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion bod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi cyflwyno cais gwerth £2.3 miliwn i Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi gwelliannau gofal lechyd Meddwl ac er mwyn gallu cyfeirio pobl at y gwasanaethau angenrheidiol yn gyflym. Mae gwaith yn cael ei ymgymryd ag ef er mwyn gallu hyfforddi gweithwyr Ambiwlans rheng flaen i allu adnabod pobl sydd mewn argyfwng ac sydd ag anghenion lechyd Meddwl. Bydd caffis argyfyngau yn cael eu datblygu er mwyn galluogi pobl i gael mynediad i gyfleusterau ac i gael cymorth pan fyddant yn wynebu problemau iechyd meddwl. Mynegodd Arweinydd y Cyngor bod cael yr holl asiantaethau yn rhan o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn fanteisiol er mwyn gallu tynnu sylw at faterion sy'n achosi pryder ac yn enwedig materion iechyd meddwl. Dywedodd y Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol – Rheoli Cymorth Busnes bod y trydydd sector yn hanfodol gan eu bod yn gallu helpu i roi cymorth a chyngor lleol i bobl sydd angen cymorth. Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion bod gwaith yn cael ei wneud mewn perthynas ag Iechyd Meddwl ac nid o angenrheidrwydd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Nododd fod gwaith yn cael ei wneud yn lleol drwy'r Tîm Gweithredu Lleol a drwy'r Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl; awgrymodd y dylid cyflwyno adroddiad i gyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn amlinellu'r gwaith sydd wedi'i wneud mewn perthynas ag Iechyd Meddwl;
- Cyfeiriwyd at ddylanwad y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn lleol ac yn enwedig ar y gwasanaethau a oedd wedi eu hadnabod yn yr adroddiad o ran y cynlluniau Cronfeydd Gofal Integredig. Holwyd a oedd yr holl gynlluniau o fewn yr adroddiad wedi eu darparu. Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion bod y rhan fwyaf o wasanaethau bellach wedi'u sefydlu megis Nightowls,

Capasiti Camu Ymlaen / Camu i Lawr mewn Cartrefi Gofal a Gofal Ychwanegol, Parafeddyg yn cefnogi Gofal Uwch Môn, Datblygu 4 o fflatiau yn Llawr y Dref i gefnogi cleientiaid ag anableddau, Gwelyau Hosbis wedi eu Cynllunio yn Ysbyty Penrhos Stanley, Rheolwr Prosiect ar gyfer Ymarfer Tendro Gofal Cartref, Buddsoddiad yn y Prosiect Tai Grŵp Bach ar gyfer y Gwasanaethau Plant;

- Cyfeiriodd yr Is-gadeirydd at y gorwariant yn y Gwasanaethau Plant a holodd a yw'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynorthwyo'r Awdurdod Lleol. Ymatebodd yr Arweinydd bod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi cyflwyno ceisiadau fel rhan o Gronfa Trawsnewid Llywodraeth Cymru er mwyn ymateb i'w pwyslais ar y rhaglen 'Cymru Iachach' ac mae'r Gwasanaethau Plant yn rhan o'r ceisiadau hyn. Cyfanswm y ceisiadau yw £3 miliwn dros ddwy flynedd ar draws y rhanbarth er mwyn galluogi ymyrraeth gynnar. Nododd yr Arweinydd ymhellach fod yr Awdurdod hwn wedi sefydlu tîm 'trothwy gofal' a bod y profiad a gafwyd yn lleol wedi cynorthwyo'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wrth greu'r broses o wneud cais;
- Holwyd am yr heriau y mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn eu hwynebu. Ymatebodd Arweinydd y Cyngor ei fod wedi bod yn her i gael pobl o'r sefydliadau statudol i fynychu'r cyfarfod ond bod ymrwymiad i'r Bwrdd wedi gwella yn ddiweddar. Nododd y cynhelir y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol bob mis a fel y Deilydd Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Arweinydd yw cynrychiolydd yr Awdurdod hwn ynghyd â'r cynrychiolydd ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Nododd y Prif Weithredwr ei fod wedi bod yn her i geisio sefydlu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r swyddogaethau amrywiol mae'n eu cynnwys. Mae rhai o swyddogaethau'r Bwrdd yn cynnwys:-

- Sicrhau Ymateb Rhanbarthol i'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth
- Hyrwyddo Cronfeydd Cyfun lle bo hynny'n briodol a lle bod awdurdod i wneud hynny.
- Blaenoriaethu integreiddio mewn gwasanaethau penodol, sef:
Gwasanaethau Pobl Hŷn, Gwasanaethau Anableddau Dysgu, Gofalwyr, Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd a Phlant ag Anghenion Cymhleth.
- Sicrhau fod gwybodaeth, cyngor a chymorth priodol ar gael i'r boblogaeth leol.

Nododd fod y Cyngor wedi cydweithio â'r Heddlu er mwyn mynd i'r afael â phrofiadau ACE (Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod).

PENDERFYNWYD:-

- **Derbyn yr adroddiad fel diweddariad mewn perthynas â rôl a phwrpas y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.**
- **Y dylid cyflwyno adroddiad i gyfarfod o'r Pwyllgor Partneriaeth ac Adfywio yn amlinellu'r gwaith a gafodd ei wneud mewn perthynas ag lechyd Meddwl a'r gwaith a gafodd ei wneud gan y Bwrdd Partneriaeth lechyd Meddwl.**

GWEITHRED: Fel y nodir uchod.

5 RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Swyddog Sgrwtini ar Raglen Waith y Pwyllgor hyd at fis Gorffennaf 2019.

PENDERFYNWYD nodi'r Rhaglen Waith hyd at fis Gorffennaf 2019.

GWEITHRED: Fel yr uchod

**CYNGHORYDD GWILYM O JONES
CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Templed Adroddiad Sgriwtini

Pwyllgor:	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Dyddiad:	12 Mawrth 2019
Pwnc:	Datblygiadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y Gymuned ar gyfer Oedolion
Pwrpas yr Adroddiad:	Diweddaru aelodau ynghylch meysydd cydweithio
Cadeirydd Sgriwtini:	Cyng. Gwilym O Jones
Aelod(au) Portffolio:	Cyng. Llinos Medi Huws
Pennaeth Gwasanaeth:	Alwyn Rhys Jones
Awdur yr Adroddiad:	Alwyn Rhys Jones
Rhif Ffôn:	01248 725707
E-bost:	Alwynjones3@ynysmon.gov.uk
Aelodau lleol:	D/B

1 – Argymhelliad/ion

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio:
Graffu'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn ynghylch y meysydd y mae'r Bwrdd Iechyd a Chyngor Sir Ynys Môn yn gweithio mewn partneriaeth arnynt er mwyn newid y ffordd y mae cefnogaeth yn cael ei darparu o fewn cymunedau.

2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall

1. Nod y meysydd cydweithio hyn yw rhoi gwell cefnogaeth i unigolion gynnal eu hiechyd a'u lles o fewn cymunedau.
2. Mae'r nod hwn yn gwbl gyson â nod y Cyngor i gefnogi oedolion bregus a'r rhai sydd angen cymorth i aros yn ddiogel, yn iach ac yn annibynnol.

3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini

Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-

- 3.1 Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/dinesydd]**
- 3.2 Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**
- 3.3 Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**
- 3.4 Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**
- 3.5 Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
 - hirdymor
 - atal

- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

[ffocws ar lesiant]

4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

1. Beth ydy effeithiau'r trefniadau cydweithio presennol a sut mae'r rhain yn dylanwadu ar ddeilliannau i ddefnyddwyr gwasanaeth?
2. A oes yna unrhyw risgiau penodol ynghlwm wrth y trefniadau yma all gael effaith ar wydnwch gwasanaethau neu ar strategaethau ymyrraeth gynnar i reoli galw?
3. Pa gynlluniau sydd mewn lle i ddatblygu'r trefniadau partneriaethol presennol rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor?
4. Oes yna unrhyw feysydd penodol o waith partneriaethol y byddai'r Pwyllgor yn dymuno edrych arnynt mewn mwy o fanylder?

5 – Cefndir / Cyd-destun

Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o'r 4 maes y mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithio'n agos arnynt gyda'n partneriaid ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) er mwyn newid patrwm y gofal a'r gefnogaeth a ddarperir i oedolion yn Ynys Môn.

Bydd y meysydd gwaith hyn yn sylfaenol o ran newid ein dull gweithredu yn ystod blynyddoedd i ddod. Y meysydd sy'n cael sylw yw **Clystyrau, Timau Adnoddau Cymunedol, Datblygiadau Iechyd Meddwl a gwaith Linc Cymunedol Môn.**

1. Clystyrau

Er mwyn gwella gallu Ymarferwyr Gofal Sylfaenol i gefnogi eu cymunedau mae'r Model Clystyrau Meddygon Teulu'n cael ei gryfhau ar draws Gogledd Cymru. Clwstwr yw grŵp o ymarferwyr gofal sylfaenol sy'n gweithio gyda'i gilydd mewn ardaloedd daearyddol penodol er mwyn sicrhau fod gwasanaethau a chefnogaeth addas ar gael ac yn cael eu darparu'n lleol o fewn yr ardal honno.

Mae un clwstwr yn Ynys Môn.

Mae gwelliannau lleol diweddar yn cynnwys

- Cynyddwyd capasiti drwy ddarparu **Ffisiotherapyddion a Fferyllwyr** ychwanegol. Mae Ffisiotherapyddion Ymarfer Uwch yn caniatáu i bobl sydd â phroblemau cyhyrysgerbydol gael eu gweld yn lleol gan Uwch Ymarferydd Ffisiotherapi Cyhyrysgerbydol yn hytrach na gweld eu meddyg teulu. Mae'r gwasanaeth a arweinir gan Ffisiotherapyddion yn golygu bod modd i gleifion gael eu gweld yn lleol yn brydlon ac i'r cyflwr gael ei reoli'n gynnar ac o ganlyniad, atal y cyflwr rhag gwaethgu a'r risg o ddatblygu cyflyrau cronig.

- Mae **Meddyg Teulu Gofal yr Henoed** yn cefnogi cleifion mewn cartrefi gofal ac yn cynorthwyo i ddarparu Cynlluniau Uchafu Triniaeth i leihau derbyniadau amhriodol i Ofal Eilradd.
- **Rhagnodi Cymdeithasol** – cyllido 3 Cydlynnydd Asedau Lleol fel rhan o Linc Cymunedol Môn, Medrwn Môn. Mae pob un o'r 7 Cydlynnydd Asedau Lleol wedi eu penodi ac yn gysylltiedig â phractis unigol er mwyn cefnogi Gofal Sylfaenol. Cyflwynwyd y gwasanaeth rhagnodi cymdeithasol i'r ardal Clwstwr er mwyn gwneud defnydd mwy priodol o wasanaethau iechyd a chymdeithasol, gwella canlyniadau iechyd a llesiant a galluogi cleifion i fod yn fwy rhagweithiol wrth reoli eu cyflyrau a'u lles eu hunain. Nod y gwasanaeth yw gwneud y mwyaf o asedau cymunedol, datblygu'r defnydd o wirfoddolwyr a gwasanaethau gwirfoddol sy'n bodoli eisoes er mwyn i bobl gael mynediad at y gefnogaeth gywir ac i fod yn agored i gymaint â phosib o bobl o fewn y gymuned.

Erbyn hyn gall Meddygon Teulu gyfeirio cleifion at y Cydlynnydd Asedau Cymunedol yn electronig drwy glicio botwm ar eu system glinigol ac mae cleifion sy'n ymweld â'r feddygfa'n aml wedi cael eu hadnabod ym mhob practis er mwyn derbyn cefnogaeth gan y Cydlynwyr Asedau Lleol.

- **Atal Codymau:** Mae syrthio a thorri esgyrn ymysg yr henoed yn cael effaith niweidiol iawn ar ansawdd bywyd y claf ac yn creu galw mawr am wasanaethau gofal sylfaenol, cymunedol ac eilradd. Gwahoddwyd cleifion risg uchel dros 65 oed i dderbyn asesiad gan uwch fferyllwyr clinigol er mwyn lleihau'r perygl o syrthio i'r unigolion hynny.
- Mae clwstwr Ynys Môn wedi bod yn gweithio'n agos gyda chanolfan Iechyd Meddwl a Llesiant Abbey Road i ddarparu cymorth i gleifion Iechyd Meddwl Haen 0 yn adeiladau'r practis yn y lle cyntaf cyn i gleifion ymweld â chanolfan Abbey Road yn uniongyrchol i dderbyn cefnogaeth.
- Yn ystod y flwyddyn mae cyfarfodydd clwstwr wedi bod yn rhai thematig yn canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth penodol yn cynnwys Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Plant ac Iechyd Cyhoeddus.

Bydd clwstwr Ynys Môn yn canolbwyntio ar ddatblygu'r meysydd canlynol ymhellach o fis Ebrill 2019 ymlaen.

- Model Rhagnodi Cymdeithasol, gan weithio gyda Medrwn Môn i ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach o gwmpas yr hybiau cymunedol er mwyn tynnu cleifion oddi wrth y feddygfa.
- Gwaith pellach gyda'r Heddlu a'r Comisiynydd Trosedd i ddatblygu'r gwasanaeth Un Pwynt Mynediad a chefnogaeth ymyrraeth gynnar ar gyfer pobl fregus a'u teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo i gyflwyno'r 2 Gydlynnydd Asedau Lleol Plant a Phobl Ifanc fydd yn cael eu hariannu gan y Gwasanaethau Plant yn dilyn llwyddiant y model Cydlynwyr Asedau Lleol ar gyfer Oedolion.
- Lansiad llawn model Rhagnodi Cymdeithasol Ynys Môn ym mis Ebrill.

2. Timau Adnoddau Cymunedol

Bydd 3 Tîm Adnoddau Cymunedol yng Nghlwtwr Ynys Môn. Bydd y Timau'n gweithredu mewn tair ardal ar yr ynys yn cyfateb i'r ardaloedd gofal cartref a roddwyd ar dendr yn ddiweddar.

O fewn pob ardal, darparir lle swyddfa fydd yn caniatáu i staff o lechyd a'r Awdurdod Lleoli i weithio ochr yn ochr â'i gilydd ac i gael mynediad at eu rhwydweithiau / systemau TG eu hunain. O fewn pob ardal, bydd o leiaf un lle hawdd cael ato (naill ai lle parhaol neu le y gellir ei rentu / ddefnyddio yn ôl yr angen) fydd yn caniatáu i'r Tîm Amlddisgyblaethol gynnal trafodaethau am gleifion. Yn ymarferol, bydd datblygu Timau Adnoddau Cymunedol yn Ynys Môn yn golygu y bydd ein Gweithwyr Cymdeithasol Oedolion a Therapyddion Galwedigaethol yn gweithio'n bennaf o'r canolfannau lleol hyn.

Yn y tymor byr ein nod yw y bydd y Timau Adnoddau Cymunedol yn cynnwys y swyddogaethau craidd canlynol.

- Meddyg Teulu
- Staff Gofal yr Henoed
- Nyrsys Cymunedol
- Gweithiwr Cymdeithasol (oedolion)
- Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol (oedolion)
- Darparwyr Gofal Cartref (oedolion)
- Ffisiotherapyddion
- Therapyddion Galwedigaethol (lechyd a'r Awdurdod Lleol)
- Cydlynwyr Asedau Lleol
- Nyrs Seiciatrig Gymunedol/lechyd Meddwl Pobl Hŷn
- Uwch Ymarferydd Nyrsio; Uwch Ymarferydd Parafeddyg; Ymarferydd Gofal Brys.

Nod y Tîm Adnoddau Cymunedol yw y bydd gan bob oedolyn sy'n byw ar Ynys Môn fynediad syml ac uniongyrchol i Dîm Adnoddau Cymunedol erbyn diwedd 2019/20. Bydd y Timau yn darparu gwasanaeth llyfn drwy ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol mewn modd cydlynus. Byddant yn datblygu cryfderau unigol a rhwydweithio cymunedol ac yn defnyddio cefnogaeth arbenigol lle bod angen er mwyn hyrwyddo llesiant a chaniatáu unigolion i fyw eu bywydau fel y maent yn ei ddymuno.

Bydd rhywfaint o gymorth ar gael ar lefel leol/clwtwr, a bydd yn cael ei rannu ar draws yr holl ardaloedd. Mae enghreifftiau'n cynnwys Cefnogaeth Incwm a Chodi Tâl, Gwasanaethau Meddygol Arbenigol – Diabetes, Methiant y Galon ayb, Podiatreg, Dietegwyr, Therapyddion Iaith a Lleferydd a Therapi Celf, Gweithwyr Cymorth Iechyd Meddwl, Nyrsio Arbenigol a Thai.

Bydd swyddogaethau arbenigol eraill ar gael i'w galw i mewn, o dîm Gwynedd a Môn, Gorllewin neu Ogledd Cymru. Bydd y swyddogaethau hyn yn rhan o'r Tîm Adnoddau Cymunedol ond ni fyddant yn bresennol nac ar gael yn rheolaidd. Maent yn cynnwys Gwasanaeth Ambiwylans Cymru, yn cynnwys timau ymateb brys eraill, a Thimau Diogelu Oedolion a Phlant.

Bydd y Timau Adnoddau Cymunedol yn

- cael eu trefnu i gwrdd â'r galw yn ystod oriau arferol ac allan o oriau
- ganolog i ddatblygu cymunedau cydnerth
- cynorthwyo i fonitro cleifion risg uchel ac yn cynorthwyo i osgoi derbyniadau i ysbyty ac i ryddhau pobl yn gynharach o'r ysbyty ac i roi cymorth i bobl ddychwelyd i'w cymunedau
- darparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth / Un Pwynt Mynediad ar draws lechyd a Gofal Cymdeithasol

Bydd cydlynnydd gofal dynodedig yn gweithio ochr yn ochr â phob person sydd angen cymorth gan dynnu cefnogaeth i mewn o fannau eraill yn ôl yr angen.

3. Datblygiadau lechyd Meddwl yn ein cymunedau

Datblygwyd Timau Gweithredu Lleol ar gyfer pob ardal leol yng Ngogledd Cymru er mwyn sicrhau bod y newidiadau i wasanaethau iechyd meddwl a nodir yn y strategaeth "Llaw yn Llaw at Iechyd Meddwl yng Ngogledd Cymru" yn cael eu gweithredu. Mae Awdurdodau Lleol Ynys Môn a Gwynedd yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd fel rhan o'r Timau Gweithredu Lleol.

Nod y Timau Gweithredu Lleol yw

- Defnyddio'r 5 Ffordd at Les fel sylfaen ar gyfer lles emosiynol a seicolegol
- Gweithio gydag asiantaethau gwirfoddol a thrydydd sector i adolygu eu rôl gyda phobl sydd mewn perygl o gael argyfwng iechyd meddwl dwys
- Datblygu ymatebion lleol heblaw mynediad i ysbyty: caffis argyfwng, noddfeydd, cryfhau gwasanaethau triniaeth yn y cartref, gwasanaethau camu i lawr
- Sicrhau fod y gwasanaeth iechyd meddwl a ddarperir drwyddo draw yn ystyried anghenion o ran yr iaith Gymraeg ac yn eu diwallu
- Gweithio gydag asiantaethau statudol, gwirfoddol a thrydydd sector i adolygu anghenion heb eu diwallu ymysg pobl â salwch meddwl a sicrhau fod bylchau yn y ddarpariaeth gwasanaeth yn derbyn sylw
- Creu llwyfannau ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion ynglŷn â'r agenda iechyd meddwl
- Cynnal digwyddiadau ymgysylltu gyda'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol er mwyn codi ymwybyddiaeth am y Tîm Gweithredu Lleol a'i waith, yn cynnwys hyrwyddo'r ymgyrch 'I Can'

Bydd dangosyddion cynnydd wrth roi sylw i'r flaenoriaeth hon yn cynnwys:

- Nifer y derbyniadau i ofal iechyd meddwl lleol mewn ysbyty
- Nifer y bobl leol sy'n cael eu lleoli mewn gwasanaethau tu allan i Ogledd Cymru
- Nifer y bobl sy'n cael eu cadw dan A. 136 Deddf Iechyd Meddwl
- Gwella profiad pobl leol sy'n cael argyfwng iechyd meddwl

Ers ei sefydlu yn 2017, mae'r Tîm Gweithredu Lleol wedi siapio a symud y datblygiadau canlynol yn eu blaen

Gofal Brys/Mewn Argyfwng:

- Canolfan 'I-Can' yn Ysbyty Gwynedd yn darparu 'lle diogel' i bobl â phroblemau iechyd meddwl sy'n ymweld â'r adran Frys. Mae'r canolfannau ar agor yn ystod y nos dan ofal gwirfoddolwyr.
- Mae grŵp lleol yn edrych ar ddatblygu'r model caffi argyfwng
- Ar Ynys Môn rydym wedi gweithio gyda Digartref Ynys Môn ac wedi canolbwyntio ar gefnogi pobl ddigartref.
- Gwnaed gwaith sylweddol i ddadansoddi data ynghylch y defnydd o A136 y Ddeddf Iechyd Meddwl er mwyn deall y patrymau lleol a gweithio gyda phartneriaid i edrych ar opsiynau eraill.

Llesiant: (Rydym wedi mabwysiadu 5 Ffordd at Les Iechyd Cyhoeddus Cymru fel ein dull o gyflawni'r amcan hwn)

- Rhoddwyd pwyslais sylweddol ar weithio gyda phartneriaid ar draws y sector i gydlynw ein dull gweithredu.
- Cynhaliwyd gweithdy gydag asiantaethau allweddol er mwyn dysgu pwy sy'n gwneud beth.
- Rhoddwyd pwyslais ar ddatblygu gwaith grŵp yn y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol e.e. ymwybyddiaeth ofalgar, rheoli gorbryder, eco-therapi
- Mae'r tîm gwasanaethau cefnogol yn hwyluso cyfleoedd grŵp amrywiol e.e. badminton, cerdded, bwyta'n iach, rhedeg, yn ogystal â chynnal grwpiau lles wythnosol.
- Ar hyn o bryd, mae'r tîm gwasanaethau cefnogol yn archwilio ffyrdd o ddefnyddio gwefan y Cyngor fel llwyfan i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sydd ar gael.
- Mae'r holl waith grŵp yn canolbwyntio ar hyrwyddo Adfer a gweithio gyda'n hasiantaethau partner, gan ddefnyddio adnoddau lleol a hyrwyddo cyfranogiad defnyddwyr.

Tai:

- Rydym wedi datblygu llwybr Tai ar gyfer Iechyd Meddwl er mwyn sicrhau fod pobl â phroblemau iechyd meddwl yn cael cyfle wrth sicrhau llety addas. Mae grŵp amlasiantaethol yn cyfarfod yn rheolaidd i nodi a blaenoriaethu anghenion tai.
- Mae'r tîm Cefnogi Pobl wedi comisiynu 5 o unedau tai â chymorth ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl drwy ei gontract â'r Wallich.
- Datblygwyd prosiect peilot 'camu i lawr' gan adran Dai y Cyngor.

Codi ymwybyddiaeth:

- Cynhaliwyd Cynhadledd ym mis Gorffennaf 2018 gyda phwyslais ar ddysgu o brofiadau pobl.
- Datblygwyd rhaglen gyda barbwyr lleol ar ddiwrnod cenedlaethol y dynion er mwyn codi ymwybyddiaeth am iechyd meddwl.

- Datblygwyd pecyn hyfforddiant codi ymwybyddiaeth a bydd yn cael ei gyflwyno i staff mewn lleoliadau eraill e.e. staff mewn tafarnau, gyrwyr tacsï, siopau trin ewinedd ayb – unrhyw leoliad lle mae pobl yn debygol o drafod eu hiechyd meddwl.

Nod y dull bartneriaeth hon yw rhoi gwell cefnogaeth i unigolion er mwyn atal eu hanghenion rhag cynyddu yn ddiangen.

4. Gwaith Linc Cymunedol Môn gyda Medrwn Môn

Mae Medrwn Môn, y Cyngor Gwirfoddol Sirol Lleol, wedi bod yn bartner allweddol wrth gynorthwyo iechyd a Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i gefnogi cymunedau mewn ffordd wahanol drwy ddatblygu Linc Cymunedol Môn.

Mae'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth datganoledig hwn yn cynorthwyo Cyngor Sir Ynys Môn i gwrdd â'n Dyletswydd Statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac mae'n cynorthwyo'r bwrdd iechyd i gynnal annibyniaeth unigolion yn y gymuned.

Ariennir y gwasanaeth o gyllideb gyfun rhwng Medrwn Môn, BIPBC, Clystyrau Meddygon Teulu Ynys Môn a Chyngor Sir Gwynedd ac mae'n gweithredu gwasanaeth e-bost a llinell ffôn, rhwng 9am a 5pm, Dydd Llun-Gwener, ac mae wedi ei leoli yn swyddfa Medrwn Môn yn Llangefni.

Mae Swyddogion Cyswllt dynodedig yn delio â phob ymholiad ac atgyfeiriad – maent yn delio gyda cheisiadau am wybodaeth neu gyngor neu byddant yn trosglwyddo atgyfeiriadau i un o'r tîm o 7 Cydlynnydd Asedau Lleol y cyfeiriwyd atynt eisoes yn yr adroddiad hwn.

Mae'r gefnogaeth ar gael i'r aelodau hynny yn ein cymuned allai fod yn teimlo'n ynysig neu'n unig, neu sydd yn dymuno cymryd rhan mewn mwy o weithgareddau yn eu hardal leol. Gall nifer o bartneriaid, yn cynnwys Gweithwyr Cymdeithasol, Meddygon Teulu, Timau Iechyd Meddwl Cymunedol, Ffisiotherapyddion, Sefydliadau Trydydd Sector neu'r person ei hun wneud atgyfeiriadau i'r gwasanaeth.

Mae Cydlynwyr Asedau Cymunedol yn gweithio ar sail un i un gydag unigolion ac yn helpu i ddod o hyd i weithgareddau ac atebion i'w hailgysylltu â'u cymunedau. Gallai hyn gynnwys eu cynorthwyo i fynychu gweithgareddau yn y lle cyntaf ond hefyd i ddod o hyd i bobl debyg o fewn eu cymunedau er mwyn creu rhwydweithiau cefnogaeth hirdymor. Mae'r Cydlynwyr Asedau Cymunedol wedi eu lleoli yn y meddygfeydd a'r hybiau cymunedol, neu gerllaw.

6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]

Mae Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer Prosiectau neu Gynlluniau Unigol ar gael ar gais.

7 – Oblygiadau Ariannol

O safbwynt ariannol, mae'r holl waith a wneir mewn partneriaeth yn cael ei wneud naill ai gyda staff ac adnoddau dyranedig presennol, neu'n cael ei ariannu o'r Gronfa Gofal Integredig neu grantiau eraill y mae gan y partneriaid fynediad atynt.

8 – Atodiadau

Dim

9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):

Dim

CYNGOR SIR YNYS MÔN <u>Templed Adroddiad Sgriwtini</u>	
Pwyllgor:	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Dyddiad:	12fed Mawrth 2019
Pwnc:	Adroddiad Cynnydd ar Gyflawni'r Cynllun Llesiant gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn
Pwrpas yr Adroddiad:	Darparu adroddiad ar gynnydd gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn
Cadeirydd Sgriwtini:	Cyng. Gwilym O Jones
Aelod(au) Portffolio:	Cyng. Llinos Medi
Pennaeth Gwasanaeth:	Dim yn berthnasol
Awdur yr Adroddiad:	Nonn Hughes. Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn
Rhif Ffôn:	01286 679906
E-bost:	NonnGwenllianHughes@gwynedd.llyw.cymru
Aelodau lleol:	Dim yn berthnasol i unrhyw ward benodol.

1 – Argymhelliad/ion

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini nodi:

1. Cynnydd gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

2 – Cyswilt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Mae'r Cyngor yn darparu amrywiaeth o wasanaethau fydd yn cyflawni eu hamcanion llesiant unigol, yn ogystal â chyfrannu at a chefnogi amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini

Er mwyn cymhorth i Aelodau wrth graffu'r pwnc:-

3.1 Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau

3.2 Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd.

3.3 Edrych ar unrhyw risgiau

3.4 Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd

3.5 Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio

4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

1. Ym mha fodd y mae 2 amcan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn helpu'r Cyngor i gwrdd â'i amcanion dan Gynllun y Cyngor am 2017-2022 ac a fyddant yn cefnogi'r naill a'r llall yn y tymor hir?
2. Sut bydd y BGC yn gwybod bod y blaenoriaethau y mae wedi eu gosod ar ei gyfer ei hun yn cael eu tacio'n llwyddiannus?
3. Pa ystyriaeth mae'r BGC wedi ei rhoddi i'r tueddiadau tymor hir a allai effeithio'r meysydd gwaith sydd wedi cael eu gosod?
4. A yw'r meysydd gwaith a osodwyd gan y BGC yn rhai ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig neu'r tymor hir?
5. Pa gamau ymarferol fydd y BGC yn ymgymryd â nhw er mwyn integreiddio eu blaenoriaethau i mewn i gynlluniau a strategaethau cyrff cyhoeddus eraill?

5. – Cefndir / Cyd-destun

5.1 Cyflwyniad a chyd-destun

5.1.1 Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yw gwella llesiant economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn amlygu saith nod llesiant a pum ffordd o weithio er mwyn rhoi pwrpas cyffredin i gyrff cyhoeddus.

5.1.2 Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn ym 2016, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Y penderfyniad a wnaethpwyd gan Bwyllgor Gwaith Ynys Môn bryd hynny oedd sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i Ynys Môn fyddai'n *cydweithio* efo Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd.

5.1.3 Cyhoeddwyd Asesiad o Lesiant y BGC ar gyfer ardaloedd llesiant Ynys Môn ym mis Mai 2017 ac yna yn dilyn cyfres o sesiynau ymgysylltu ac ymgynghori cyhoeddwyd y Cynllun Llesiant ym 2018. Ceir gadarnhad yn y Cynllun Llesiant o'r ddau amcan a chwe maes blaenoriaeth ble gytunwyd gall y Bwrdd gydweithio i sicrhau'r canlyniadau gorau i drigolion Gwynedd ac Ynys Môn. Cytunwyd felly ar feysydd blaenoriaeth sy'n gyffredin yn y ddwy Sir a bydd y BGC yn ymateb i'r materion yma ar y cyd ar draws y ddwy Sir.

5.2 Diweddariad ar gynnydd yr is-grwpiau

5.2.1 Cytunodd y BGC ar feysydd blaenoriaeth i wireddu'r amcanion uchod. Mae pedwar is-grŵp wedi eu sefydlu o dan amcan 1 fel a ganlyn:

5.2.2 Amcan 1 – Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir-dymor

Y Flaenoriaeth	Meysydd gwaith sydd wedi eu pennu	Adroddiad ar gynnydd
<p>“Yr Iaith Gymraeg - Byddwn yn cydweithio i gynyddu'r defnydd o'r Iaith Gymraeg o fewn cyrff cyhoeddus yng Ngwynedd a Môn. Byddwn yn hyrwyddo defnydd o'r Iaith Gymraeg fel yr iaith ddewis ar gyfer cyfathrebu ymysg sefydliadau cyhoeddus ar draws y ddwy sir”.</p> <p>Arweinir yr Is-grŵp Iaith Gymraeg gan yr Athro Jerry Hunter</p>	<p>Rhannu arfer dda am faterion leithyddol, i geisio sicrhau mwy o gysondeb yn y modd y caiff y Gymraeg ei defnyddio o fewn y sefydliadau, gan arwain at brofiad mwy cyson ar gyfer y defnyddwyr.</p>	<p>Cyflwynodd yr is-grŵp gais i Lywodraeth Cymru i gefnogi prosiect 'ARFer' sy'n galluogi'r cyrff cyhoeddus rannu arfer dda o ddelio gyda siaradwyr anfoddog, a'r ddealltwriaeth o seicoleg ymddygiad. Rhagwelir y bydd hyn yn arwain at ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg siaradwyr anfoddog. Bydd Prifysgol Bangor yn ehangu'r rhaglen ARFer a phrofi ei heffeithiolrwydd mewn amrywiaeth o gyd-destunau gwahanol.</p>
	<p>Rhoddi ystyriaeth i faterion leithyddol o safbwynt y dinesydd</p>	<p>Mae'r is-grŵp yn awyddus i drosglwyddo syniadau a chynlluniau hybu defnydd o'r Iaith Gymraeg o un sefydliad i'r llall. Y bwriad yw deall y rheswm dros y dewis iaith o safbwynt y defnyddwyr gwasanaeth, a gwneud y dewis iaith yn haws ac yn amlycach i'r defnyddwyr.</p>
	<p>Iaith a thaith ieithyddol plentyn a'r rhwystrau a</p>	<p>Bydd yr is-grŵp yn cydweithio gyda sefydliadau sydd eisoes yn gwneud</p>

	wynebir rhag dal eu gafael ar yr laith.	gwaith yn y maes penodol yma er mwyn gwella dealltwriaeth a chydweithio er mwyn ychwanegu gwerth.
<p>“Cartrefi ar gyfer pobl leol. Byddwn yn cydweithio gyda’r sector dai i sicrhau mwy o dai addas a fforddiadwy yn y llefydd cywir er mwyn diwallu anghenion lleol. Byddwn yn cydweithio i sicrhau bod cartrefi yn rhai o ansawdd sy’n cwrdd ag anghenion trigolion”</p> <p>Arweinir yr Is-grŵp Cartrefi gan Ffrancon Williams, Prif Weithredwr Cartrefi Cymunedol Gwynedd.</p>	<p>Mae’r is-grŵp yn ystyried opsiynau o gydweithio ar gynlluniau tai arloesol i osgoi dyblygu, gweithio yn ynysig ac er mwyn cyflawni arbedion maint. Mae’n gynllun arloesol ac yn annog cydweithio rhwng sefydliadau o fewn y sector dai. Bydd yn caniatáu mwy o gartrefi addas a fforddiadwy.</p>	<p>Bydd yr is-grŵp yn datblygu achos busnes manwl ar gyfer</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Gwerthuso modelau tai arloesol. 2. Cyflwyno achos ariannol a threfniadau ariannu ar gyfer y cynlluniau 3. Datblygu tai arloesol yn ein cymunedau
<p>“Effaith Tlodi ar lesiant ein cymunedau. Byddwn yn datblygu dealltwriaeth fanwl o sut mae tlodi yn effeithio ar ein hardaloedd ac yn ceisio sicrhau bod y gwaith sy’n digwydd yn y maes ar draws y cyrff cyhoeddus yn fwy effeithiol er mwyn lliniaru effaith hir dymor”</p> <p>Arweinydd yr is-grŵp i’w gytuno.</p>	<p>Bydd aelodau’r Bwrdd yn ystyried cynnwys tlodi yn eu hasesiadau effaith cydraddoldeb wrth gyflwyno polisi/ newidiadau.</p>	<p>Bydd yr is-grŵp yn pwysleisio’r berthynas rhwng cydraddoldeb a thlodi ac yn datblygu teclyn i ymestyn asesiad effaith cydraddoldeb - i gynnwys effeithiau tlodi yn ogystal.</p>
<p>“Effaith newid hinsawdd ar lesiant ein cymunedau. Byddwn yn cydweithio’n lleol ac yn gweithredu ar y cyd i geisio lliniaru effaith newid hinsawdd ar ein cymunedau”.</p> <p>Arweinir yr Is-grŵp newid Hinsawdd gan Sian Williams, Rheolwr Gweithrediadau’r Gogledd Orllewin, Cyfoeth Naturiol Cymru</p>	<p>Yn y byrdymor, adolygu data presennol, strategaethau a pholisïau perthnasol i gymunedau arfordirol sydd mewn peryg o effeithiau newid hinsawdd yng Ngwynedd a Môn.</p> <p>Ystyried opsiynau i ddatblygu teclyn dadansoddol a fydd yn</p>	<p>Bydd y gwaith yn galluogi’r BGC i ystyried effeithiau newid hinsawdd ar y gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir i gymunedau yn yr ardal.</p> <p>Bydd yr is-grŵp yn cyflwyno cynllun prosiect i’r BGC ym</p>

	galluogi dealltwriaeth fanylach o'r materion yn ymwneud â newid hinsawdd.	mis Mawrth 2019 er mwyn adnabod y camau prosiect a'r adnoddau.
--	--	--

5.2.3 Mae dau faes blaenoriaeth 'Iechyd a Gofal oedolion' a 'Lles a llwyddiant plant a phobl ifanc' yn cyfarch amcan 2. Cytunwyd i sefydlu un is-grŵp i gyfarch y ddwy flaenoriaeth sef Grŵp integredig Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Gorllewin.

5.2.4 Amcan 2 – Trigolion sy'n iach ac yn annibynnol gyda safon bywyd da

Y Flaenoriaeth	Meysydd gwaith sydd wedi eu pennu	Adroddiad cynnydd
<p>“Iechyd a Gofal Oedolion Byddwn yn cydweithio â'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu cynllunio ar gyfer y boblogaeth hŷn yn addas ar gyfer anghenion lleol. Byddwn yn cydweithio yn lleol i gynllunio ystod eang o weithgareddau ataliol ar gyfer oedolion er mwyn eu galluogi i fyw yn iach ac yn annibynnol “.</p> <p>“Lles a llwyddiant plant a phobl ifanc Byddwn yn cyd-gynllunio gwasanaethau a gweithgareddau ataliol i gefnogi teuluoedd cyn i'r angen am wasanaethau dwys godi. Byddwn yn</p>	<p>Mae'r Is-grŵp Iechyd a Gofal wedi'i sefydlu. Prif bwrpas y Grŵp yw sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu darparu'n effeithiol. Cafwyd cytundeb gan yr is-grŵp bod angen i'r Grŵp lunio is-grwpiau pellach i weithio ar faterion penodol sef Oedolion, Plant, Iechyd Meddwl a Llesiant, er mwyn iddynt allu ymgymryd â'i swyddogaethau yn y maes iechyd a gofal yn effeithiol.</p>	<p>Bydd cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu gan yr Is-grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig, ac yn ei gyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd yr is-grŵp yn awyddus i sicrhau bod trefniadau llywodraethu integredig cadarn wedi eu sefydlu cyn iddynt ddatblygu'r cynllun gweithredu.</p>

annog plant, pobl ifanc a theuluoedd i wella eu hiechyd er mwyn iddynt allu byw yn iach ac annibynnol o fewn eu cymunedau i'r hir dymor".

Arweinir yr Is-grŵp Integredig Iechyd a Gofal Cymdeithasol gan Ffion Johnstone, Cyfarwyddwr Ardal Gorllewin, Bwrdd Iechyd prifysgol Betsi Cadwaladr.

5.2.5 Cymeradwywyd y cynlluniau gweithredu amlinellol uchod yn ystod cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 10fed Rhagfyr 2018. Gofynnodd y bwrdd i'r Is-grwpiau ddarparu manylion pellach. Bydd cynlluniau gweithredu manylach yn cael eu cyflwyno i'r BGC ar 13eg Fawrth 2019.

5.3 Cyflawni

5.3.1 Mae'r pum is-grŵp a nodwyd uchod yn atebol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â chyflawni unrhyw waith a gomisiynir. Disgwylir bod arweinyddion yr is-grwpiau yn adrodd yn ôl ar gynnydd yn chwarterol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn. Bydd y cyfnod o gyflawni'r amcanion yn gyfle i bartneriaid y BGC ddangos eu parodrwydd a'u hymroddiad i weithio'n gydweithredol ac arloesol ar gynlluniau cyraeddadwy.

5.3.2 Mae'r BGC yn gweithredu yn unol â saith egwyddor, sef y pum egwyddor datblygu gynaliadwy cenedlaethol uchod, ynghyd â dau sydd wedi eu hychwanegu gan y Bwrdd sef 'Yr Iaith Gymraeg' a 'Chydraddoldeb'. Golyga hyn weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau y bodlonir anghenion heddiw heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.

5.3.3 Er mwyn ymateb i'r amserlen o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol bydd y BGC yn cyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn mis Awst 2018. Bydd y BGC yn cyflwyno'r adroddiad blynyddol i Bwyllgor Sgriwtini Ynys Môn cyn hynny er sylwadaeth.

5.4 Trefniadau Craffu

5.4.1 Bydd gwaith y Bwrdd yn cael ei wirio'n gyson gan Bwyllgorau Craffu / sgrwtini Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn. Bydd y BGC yn paratoi adroddiad blynyddol i ddangos cynnydd wrth iddo geisio cyflawni'r amcanion llesiant. Anfonir copi o bob adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru, y Comisiynydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru a phwyllgorau craffu / sgrwtini y cyngorau.

5.4.2 Mae'r Ddeddf Llesiant a'r canllawiau cenedlaethol cysylltiedig¹ yn nodi 3 rôl ar gyfer pwyllgorau sgrwtini Awdurdodau Lleol wrth ddarparu atebolrwydd democrataidd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Adolygu trefniadau llywodraethu'r BGC
- Ymgynghorai statudol ar yr Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant
- Monitro cynnydd ymdrechion y BGC wrth weithredu'r Cynllun Llesiant

5.4.3 Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn destun craffu gan Bwyllgor craffu / sgrwtini dynodedig awdurdodau lleol Gwynedd ac Ynys Môn yn bresennol. Cytunwyd ar sefydliad Y BGC bydd panel craffu ar y cyd rhwng y 2 sir yn cael ei ddatblygu i wneud y gwaith yma ar draws Gwynedd ac Ynys Môn. Bydd swyddogion craffu Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn rhoddi sylw i'r camau gweithredu allweddol mewn perthynas â sefydlu panel ar y cyd yn ystod y misoedd nesaf.

5.5 Adnoddau

- 5.5.1** Mae rheolaeth a chefnogaeth weinyddol ar gyfer y Bwrdd yn cael ei ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd.
- 5.5.2** Cyfrifoldeb pob aelod statudol yn gyfartal yw adnoddau ar gyfer cyflawni gwaith yr is-grwpiau. Bydd y cyfraniadau yn cael eu cytuno a'i hadolygu gan y Bwrdd yn ôl y gofyn.

6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]

6.1 Bydd yr is-grwpiau cyflawni yn paratoi asesiadau effaith cydraddoldeb ac ieithyddol, ble mae hynny'n briodol, i gyd-fynd a'u cynlluniau gweithredu. Bydd yr asesiadau effaith yn ddogfennau byw fydd yn newid a datblygu ochr yn ochr â'r gwaith cyflawni.

7 – Oblygiadau Ariannol

-

8 – Atodiadau

9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):

1. Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn

¹ Canllawiau ar gyfer Pwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol ar graffu ar Fyrdau Gwasanaethau Cyhoeddus

This page is intentionally left blank



PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO: 2017/2018 → 2019/2020

Cadeirydd: Cyngorydd Gwilym O Jones
Is-Gadeirydd: Cyngorydd Robert Llewelyn Jones

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio am y cyfnod Mai 2017 ymlaen, fel rhaglen dreigl a theclyn cynllunio pwrpasol. Adroddir ar y blaen raglen waith i bob cyfarfod arferol o'r Pwyllgor Sgriwtini i'r pwrpas o adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio / dynnu eitemau yn ôl. Ei phwrpas hefyd ydy sicrhau aliniad gyda blaen raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Cyswllt: Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752039
E-bost: gwrce@ynysmon.gov.uk

Dyddiad Cyfarfod	Eitem	Pwrpas	Mewnbwn Panel Sgriwtini	Ymgysylltu	Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Pwyllfgor Gwaith/ Cyngor Llawn
2017						
Mai, 2017						
31 Mai 2017	Ethol Cadeirydd	Ethol Cadeirydd				
Ystafell Pwyllgor 1 /3.30yh	Ethol Is Gadeirydd	Ethol Is Gadeirydd				
Mehefin, 2017						
27 Mehefin 2017	Adroddiad Blynyddol Cymunedau yn Gyntaf	Monitro perfformiad				
Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh	Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid	Gwybodaeth/ monitro perfformiad				
	Aelodaeth Paneli a Byrddau	Enwebu Aelodaeth		√ (Aelodau)		
	Blaen Rhaglen Gwaith	Adolygu		√ (Aelodau)		
Hydref, 2017						
9 Hydref 2017	Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol	Monitro perfformiad				
Ystafell Pwyllgor 1 /	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Datblygu Cynllun Llesiant Môn a	Monitro perfformiad/datblygu polisi				

Dyddiad Cyfarfod	Eitem	Pwrpas	Mewnbwn Panel Sgriwtini	Ymgysylltu	Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Pwyllfgor Gwaith/ Cyngor Llawn
2yh	Gwynedd)					
	Adroddiad Blynyddol Cyflwyniadau yn erbyn Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid	Monitro perfformiad				
	Blaen Rhaglen Gwaith	Adolygu		√ (Aelodau)		
Tachwedd, 2017						
14 Tachwedd 2017 Yr Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh	Cynllun Llesiant Drafft - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd (Diweddariad)	Datblygu Polisi				
	Trawsnewid Gwasanaethau Diwylliant	Sgriwtini cyn penderfyniad				√
	Adroddiad ar y Gymraeg o fewn y Weinyddiaeth Fewnol	Monitro perfformiad				
	Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd)	Monitro perfformiad	√			
	Blaen Rhaglen Gwaith	Adolygu		√ (Aelodau)		
2018						
Chwefror, 2018						
6 Chwefror 2018	Adroddiad - Perfformiad Ysgolion Môn 2016 -2017	Monitro perfformiad				

Dyddiad Cyfarfod	Eitem	Pwrpas	Mewnbwn Panel Sgriwtini	Ymgysylltu	Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Pwyllfgor Gwaith/ Cyngor Llawn
Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh	GwE- Adroddiad Blynyddol 2016/2017	Monitro perfformiad				
	Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd)	Monitro perfformiad	√			
	Aelodaeth Panel Sgriwtini – Adolygu Cynnydd Ysgolion	-		√ (Aelodau)		
	Blaen Rhaglen Gwaith	Adolygu		√ (Aelodau)		
Mawrth, 2018						
8 Mawrth, 2018 Siambr y Cyngor / 2yh	Cynllun Llesiant Drafft - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd	Datblygu Polisi				√
	Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid	Datblygu Polisi				√
	Blaen Rhaglen Gwaith	Adolygu		√ (Aelodau)		
Ebrill, 2018						
10 Ebrill 2018 Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh	Partneriaeth Angenion Addysgol Ychwanegol –Gwynedd a Môn	Monitro perfformiad				
	Blaen Rhaglen Gwaith	Adolygu		√ (Aelodau)		
Mehefin, 2018						
19 Mehefin, 2018	Aelodaeth Panel Sgriwtini Cyllid a Bwrdd Trawsnewid Addysg	-		√		

Dyddiad Cyfarfod	Eitem	Pwrpas	Mewnbwn Panel Sgriwtini	Ymgysylltu	Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Pwyllfgor Gwaith/ Cyngor Llawn
Ystafell Pwyllgor 1/2yh Tudalen 27				(Aelodau)		
	Adroddiad Blynyddol Cymunedau yn Gyntaf	Monitro perfformiad				
	Cynlluniau Adfywio Cymunedol – Amlwch a Biwmaris	Monitro Perfformiad				
	Sgriwtini o Bartneriaethau	Monitro perfformiad (Pendderfyniad Pwyllgor Sgriwtini Corfforathol 2/10/17)		√ (Aelodau)		
	Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd)	Monitro perfformiad	√			
	Blaen Rhaglen Gwaith	Adolygu		√ (Aelodau)		
Gorffennaf, 2018						
9 Gorffennaf 2018 Ystafell Pwyllgor 1/2yh	Medrwn Môn	Monitro Perfformiad				
	Strategaeth Gwrthdlodi	Datblygu Polisi				√
Medi, 2018						
24 Medi 2018	Adroddiad Blynyddol -Bwrdd	Monitro perfformiad				

Dyddiad Cyfarfod	Eitem	Pwrpas	Mewnbwn Panel Sgriwtini	Ymgysylltu	Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Pwyllfgor Gwaith/ Cyngor Llawn
Ystafell Pwyllgor 1/2yh	Partneriaeth Rhanbarthol (Iechyd a Gofal Cymdeithasol)					
	Adroddiad Blynnyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol	Monitro perfformiad				
	Blaen Rhaglen Gwaith			√ (Aelodau)		
Hydref, 2018						
15 Hydref 2018 Ystafell Pwyllgor 1/2yh	Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru	Ymgynghoriad		√ (Holl Rhanddeiliaid)		
	Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru	Monitro Perfformiad				
	Blaen Rhaglen Gwaith			√ (Aelodau)		
Tachwedd, 2018						
13 Tachwedd	Enwebu Aelod i'r Panel Sgriwtini	-		√		

Dyddiad Cyfarfod	Eitem	Pwrpas	Mewnbwn Panel Sgrwtini	Ymgysylltu	Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Pwyllfgor Gwaith/ Cyngor Llawn
2018 Ystafell Pwyllgor 1/2yh Tudalen 12	Cyllid			(Aelodau)		
	Strategaeth Rhanbarthol Digartrefedd	Sgrwtini cyn penderfyniad				√
	Partneriaeth Angenion Addysgol Ychwanegol –Gwynedd a Môn	Monitro perfformiad				
	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus –sgrwtini cychwynol o'r drefn lwodraethol a'r strwythur gweithredu y BGC	Monitro perfformiad				
	Blaen Rhaglen Gwaith	Adolygu		√ (Aelodau)		
Rhagfyr, 2018						
12 Rhagfyr 2018 Ystafell Pwyllgor 1/2yh	Adroddiad – Safonau Ysgolion Môn 2017-2018	Monitro perfformiad				
	GwE- Adroddiad Blynyddol 2017/2018	Monitro perfformiad				
	Panel Sgrwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd)	Monitro perfformiad	√			
	Blaen Rhaglen Gwaith	Adolygu		√ (Aelodau)		

Dyddiad Cyfarfod	Eitem	Pwrpas	Mewnbwn Panel Sgriwtini	Ymgysylltu	Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Pwyllfgor Gwaith/ Cyngor Llawn
2019						
Chwefror , 2019						
5 Chwefror 2019 Ystafell Pwyllgor 1/ 2yh	Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9) -Rol a chefnidir y bwrdd ai ddylanwad ar feysydd penodol yn Ynys Mon	Cais Pwyllgor(24/9/18)				
	Blaen Rhaglen Gwaith	Adolygu		√ (Aelodau)		
Mawrth, 2019						
12 Mawrth 2019 Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh	Cydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor ar gamau nesaf –Ffocws ar meysydd cyd weithio yn y cymuned	Monitro perfformiad				
	Bwrdd Gwasdanaethau Cyhoeddus- craffu cynnydd ar gweithredu'r Cynllun Llesiant	Monitro perfformiad				
	Blaen Rhaglen Gwaith	Adolygu		√ (Aelodau)		
Ebrill, 2019						
9 Ebrill 2019 Ystafell	Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy	Craffu cyn Penderfyniadf				

Dyddiad Cyfarfod	Eitem	Pwrpas	Mewnbwn Panel Sgrwtini	Ymgysylltu	Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Pwyllfgor Gwaith/ Cyngor Llawn
Pwyllgor 1/2pm	Partneriaeth Angenion Addysgol Ychwanegol -Gwynedd a Môn	Monitro perfformiad				
	Panel Sgrwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd)	Monitro perfformiad	✓			
	Blaen Rhaglen Gwaith	Adolygu		✓ (Aelodau)		
Mehefin, 2019						
18 Mehefin 2019 Stafell Pwyllgor 1 / 2yh	Adroddiad Blynnyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Rhan 9-lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) new ar 23/09/19 (i'w gadarnhau)	Monitro Perfformiad				
	Adroddiad Blynnyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	Monitro Perfformiad				
	Adroddiad ar Ddefnydd Iaith Gymraeg yn Weinyddiaeth fewnol	Monitro Perfformiad				
	Sgrwtini o Bartneriaethau – Mesur Effaith (Uned Sgrwtini)	Hunan asesiad				

Dyddiad Cyfarfod	Eitem	Pwrpas	Mewnbwn Panel Sgriwtini	Ymgysylltu	Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Pwyllfgor Gwaith/ Cyngor Llawn
	Blaen Rhaglen Gwaith	Adolygu		√ (Aelodau)		
Medi, 2019						
23 Medi 2019 Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh Tudalen 32	Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Rhan 9-lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) (i'w gadarnhau)	Monitro Perfformiad				
	Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol	Monitro perfformiad				
	Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd)	Monitro perfformiad	√			
	Blaen Rhaglen Gwaith	Adolygu		√ (Aelodau)		
Tachwedd, 2019						
12 Tachwedd 2019 Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh	Partneriaeth Angenion Addysgol Ychwanegol -Gwynedd a Môn	Monitro perfformiad			√	
	Medrwn Môn	Monitro perfformiad				
	Blaen Rhaglen Gwaith	Adolygu		√ (Aelodau)		

Dyddiad Cyfarfod	Eitem	Pwrpas	Mewnbwn Panel Sgriwtini	Ymgysylltu	Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Pwyllfgor Gwaith/ Cyngor Llawn
2020						
Chwefror, 2020						
4 Chwefror 2020 Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh	Blaen Rhaglen Gwaith	Adolygu		√ (Aelodau)		
Mawrth, 2020						
10 Mawrth 2020 Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh	Cydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor ar gamau nesaf ('w gadarnhau)	Monitro perfformiad				
	Blaen Rhaglen Gwaith	Adolygu		√ (Aelodau)		
Ebrill, 2020						
7 Ebrill 2020 Ystafell Pwyllgor 1 /	Partneriaeth Angenion Addysgol Ychwanegol -Gwynedd a Môn	Monitro perfformiad				
	Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd	Monitro perfformiad	√			

Dyddiad Cyfarfod	Eitem	Pwrpas	Mewnbwn Panel Sgriwtini	Ymgysylltu	Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Pwyllfgor Gwaith/ Cyngor Llawn
2yh	Ysgolion (Adroddiad Cynnydd)					
	Blaen Rhaglen Gwaith	Adolygu		√ (Aelodau)		

EITEMAU I'W RHAGLENNU	
i'w gadarnhau	Moderneiddio'r Gwasanaeth Hamdden Anstatudol (Craffu cyn penderfyniad))
i'w gadarnhau	Tai Gofal Ychwanegol (Ardal Seiriol) – Adroddiad ar y cyd: Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, Oedolion
i'w gadarnhau	Contractau Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion (18/06/19 - ?)
i'w gadarnhau	Adroddiad Blynyddol Galw Gofal (Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion) (23/09/19?)
i'w gadarnhau	Tu allan i Oriau (Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion) – (23/09/19?)
i'w gadarnhau	Materion cysylltiedig â Gwastraff
i'w gadarnhau	Fargen Twf Gogledd Cymru
i'w gadarnhau	Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru: Ardal Ynys Môn
i'w gadarnhau	Heddlu Gogledd Cymru:Ardal Ynys Môn
i'w gadarnhau	Gwasanaeth Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru

i'w gadarnhau	Gwahoddiad i Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
i'w gadarnhau	Trefniadau Sgriwtini - Bwrdd Gwasanethau Cyhoeddus
i'w gadarnhau	Adroddiad – Safonau Ysgolion Môn 2018-2019 (cyfarfod arbennig yn Rhagfyr 2019 ?)
i'w gadarnhau	GwE- Adroddiad Blynyddol 2018/2019 (cyfarfod arbennig yn Rhagfyr 2019 ?)
i'w gadarnhau	Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) (cyfarfod arbennig yn Rhagfyr 2019 ?)

This page is intentionally left blank